# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 2**

PWERAU I WNEUD GWYBODAETH A DOGFENNAU YN OFYNNOL

**89 Pŵer i wneud gwybodaeth a dogfennau yn ofynnol am bersonau na wyddys pwy ydynt**

(1) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad trydydd parti anhysbys") sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ("y derbynnydd") ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—

(a) os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen ar ACC at ddiben gwirio sefyllfa dreth—

(i) person na ŵyr ACC pwy ydyw, neu

(ii) dosbarth o bersonau na ŵyr ACC pwy ydynt fel unigolion,

(b) os yw'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen,

(c) os nad oes unrhyw beth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro ACC rhag ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen, a

(d) os yw'r tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi'r hysbysiad.

(2) Caniateir gwneud cais am gymeradwyaeth heb hysbysiad.

(3) Ni chaiff y tribiwnlys gymeradwyo dyroddi'r hysbysiad trydydd parti anhysbys oni fo'n fodlon—

(a) bod gofynion is-adran (1)(a) i (c) wedi eu bodloni,

(b) nad yw’r wybodaeth neu’r ddogfen y mae’r hysbysiad yn ymwneud â hi ar gael yn rhwydd i ACC o ffynhonnell arall,

(c) bod sail dros gredu y gallai’r person y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu unrhyw ddosbarth o bersonau y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef fod wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau’r gyfraith yn ymwneud â threth ddatganoledig, neu y gallent fethu â chydymffurfio â hi neu â hwy, a

(d) ei bod yn debygol bod unrhyw fethiant o’r fath wedi arwain, neu y gallai arwain, at niweidio’r gwaith o asesu neu gasglu trethi datganoledig yn ddifrifol.

(4) Wrth gymeradwyo dyroddi hysbysiad trydydd parti anhysbys, caiff y tribiwnlys wneud unrhyw addasiadau i’r hysbysiad ag y bo’n briodol yn ei farn.